# Cofrestrfa Tir EF

## Dileu cofnodion yn ymwneud ag arwystl cofrestredig

# DS1

**Dylai naill ai Ffurflen AP1 neu Ffurflen DS2 fod gyda'r ffurflen hon**

**Dylai unrhyw rannau o’r ffurflen nad ydynt yn cael eu teipio gael eu llenwi mewn inc du ac mewn prif lythrennau.**

Os bydd angen mwy o le arnoch na'r hyn sydd ar gael mewn panel, ac mae'ch meddalwedd yn caniatáu hynny, gallwch ehangu unrhyw banel yn y ffurflen. Fel arall defnyddiwch ddalen barhau CS a'i hatodi i'r ffurflen hon.

I gael gwybodaeth am sut mae Cofrestrfa Tir EF yn prosesu eich gwybodaeth bersonol, gweler ein Siarter Gwybodaeth Bersonol.

| | | |
|---|---|---|
| | 1 | Rhif(au) teitl yr eiddo: |
| Rhowch gyfeiriad gan gynnwys cod post (os oes) neu ddisgrifiad arall o'r eiddo, er enghraifft 'tir yn ffinio â 2 Acacia Avenue'. | 2 | Eiddo: |
| | 3 | Dyddiad: |
| Dylech gynnwys rhif cofnod y gofrestr, os oes mwy nag un arwystl o'r un dyddiad i'r un rhoddwr benthyg. | 4 | Dyddiad yr arwystl: |
| Cwblhewch fel y bo'n briodol os yw'r rhoddwr benthyg yn gwmni. | 5 | Rhoddwr benthyg:<br><br><u>Ar gyfer cwmnïau corfforedig yn y DU/Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig</u><br>Rhif cofrestredig y cwmni neu'r bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig gan gynnwys unrhyw ragddodiad:<br><br><u>Ar gyfer cwmnïau tramor</u><br>(a) Tiriogaeth ei gorffori:<br><br>(b) Rhif cofrestredig yn y Deyrnas Unedig gan gynnwys unrhyw ragddodiad: |
| | 6 | Mae'r rhoddwr benthyg yn cydnabod nad yw'r eiddo a nodwyd ym mhanel 2 wedi ei arwystlo mwyach fel gwarant ar gyfer talu'r symiau dyledus o dan yr arwystl |
| | 7 | Dyddiad llythyr cyfleuster y Gofrestrfa Tir (os oes un): |

Rhaid i'r rhoddwr benthyg gyflawni'r ffurflen hon fel gweithred gan ddefnyddio'r lle gyferbyn. Os oes mwy nag un rhoddwr benthyg, rhaid i bob un gyflawni. Caiff ffurfiau cyflawni eu rhoi yn Atodlen 9 i Reolau Cofrestru Tir 2003.

Gwelir enghreifftiau o'r ffurf gyflawni gywir yng nghyfarwyddyd ymarfer 8: cyflawni gweithredoedd. Mae cyflawni fel gweithred fel rheol yn golygu bod yn rhaid i dyst lofnodi, ac ychwanegu ei enw a'i gyfeiriad hefyd.

Fel arall gall y rhoddwr benthyg lofnodi yn unol â'r llythyr cyfleuster y cyfeiriwyd ato ym mhanel 7.

| 8 | Cyflawni |
| --- | --- |
| | |

RHYBUDD

Os ydych yn rhoi gwybodaeth mewn modd anonest neu'n gwneud datganiad y gwyddoch ei fod, neu a allai fod yn anwir neu'n gamarweiniol, ac yn bwriadu, trwy wneud hynny, gynnig mantais i chi neu rywun arall, neu achosi colled neu'r risg o golled i rywun arall, gallech fod yn cyflawni'r trosedd o dwyll o dan adran 1 o Ddeddf Twyll 2006, a'r uchafgosb ar gyfer hyn yw carchar o 10 mlynedd neu ddirwy ddiderfyn, neu'r ddau.

Os nad ydych yn llenwi'r ffurflen hon gyda'r gofal priodol gall diogelwch o dan Ddeddf Cofrestru Tir 2002 gael ei golli os yw camgymeriad yn cael ei wneud yn y gofrestr o ganlyniad i hyn.

O dan adran 66 o Ddeddf Cofrestru Tir 2002 mae'r rhan fwyaf o ddogfennau (gan gynnwys y ffurflen hon) a gedwir gan y cofrestrydd sy'n ymwneud â chais a gyflwynir i'r cofrestrydd neu y cyfeirir ato yn y gofrestr ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio a'u copïo. Os ydych yn credu bod dogfen yn cynnwys gwybodaeth niweidiol, gallwch wneud cais i'r rhan honno o'r ddogfen gael ei heithrio trwy ddefnyddio Ffurflen EX1, o dan reol 136 o Reolau Cofrestru Tir 2003.

© Hawlfraint y Goron (cyf: LR/HO) 06/19